CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 04 Ebrill Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor Cymuned yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 8fed o Ebrill 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Annette Price (Cadeiryddes), Y Cynghorwyr Loreen Lewis, Anthony Richards, Carwyn James, Anne Sizmur, Richard Howell, Betsan Jones a Maldwyn John.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr June Gunter, Arnallt James, Menna Roberts ar Gynghorwr Sir Audrey Jones.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Fe ddatganodd y Cynghorwr Richard Howell diddordeb yn Ysgol Gynradd y Betws.

1. DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 11eg o FAWRTH 2009.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anthony Richards ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod cofnodion cyfarfod yr 11eg o Fawrth 2009 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Gadeiryddes.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Roedd y Gadeiryddes, y Cynghorwr Richard Howell a'r Cynghorwr Loreen Lewis wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn â'r cyfarfod diweddar gyda'r Cyfreithiwr ar y 25 Mawrth 2009. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi cysylltu yn ddiweddar gyda Atech Graffig ac Arwyddion (Llanelli) sydd wedi dweud nid oedd rhaid iddynt roi manylion yswiriant yn orffennol i Gyngor Sir Caerfyrddin. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.

2.3 Bwrdd Picnic – Ysgol Gynradd y Betws.
Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Cyngor Cymuned yn cyhoeddi yn bapur y Guardian bod nhw wedi prynu'r bwrdd picnic i Ysgol Gynradd y Betws, eiliodd y Cynghorwr Anthony Richards ac fe gytunwyd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Phennaeth Ysgol Gynradd y Betws.

2.4 Bin a meinciau'r Cyngor Cymuned.
Cadarnhaodd y Gadeiryddes nid yw hi wedi derbyn galwad ffôn wrth Gareth Howell ynglyn â gosod y bin a'r meinciau. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.5 Golau Solar am Barc y Betws - Gardd Synhwyro a Choffa.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei bod hi wedi trefnu cyfarfod gyda 'Sun Set Solar' am ddydd Iau'r 23 o Ebrill 2009 am 10 o'r gloch yn gwrdd ger mynedfa Parc y Betws. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.6 Goleuadau Tymhorol/Croeso am Gymuned y Betws.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei bod hi wedi trefnu cyfarfod gyda 'Sun Set Solar' am ddydd

Iau'r 23 o Ebrill 2009 am 10 o'r gloch yn gwrdd ger mynedfa Parc y Betws. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.7 Gorchymyn Cadwraeth ar goedwig o fewn Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi siarad gyda Stephen Edwards o Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi derbyn cadarnhad wrth TRJ eu bod nhw'n mynd i roi ffens amgylch y Goeden Dderw Americanaidd. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.8 Gwefan y Gymuned.
Dywedodd y Clerc bod cofnodion ac agendau'r Cyngor Cymuned wedi cael ei rhoi ar wefan y Gymuned. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr

2.9 Pwyllgor Safonol.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn e-bost wrth Mr Grafton o Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi cadarnhau mae'r Cynghorwyr yn gallu mynd ymlaen gyda'r cyfarfod gyda Mr McAvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin a bod y Cynghorwyr dim ond am gael cyfle i esbonio diogelwch y briffordd at Mr McAvoy. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda Mr Mc Avoy.

2.10 Rhodd - Cronfa Adferiad Paul Pugh.
Roedd y Gadeiryddes wedi cadarnhau bod hi wedi trosgludo'r siec i Mr Pugh. Fydd yr arian a rhoddwyd gan y Cyngor Cymuned yn mynd at sesiynau ffisiotherapi preifat. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.11 Annwyl Fan, Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi siarad gydag Adran y Briffordd sydd wedi gofyn am fwy o wybodaeth ynglyng a'r lleoliad. Rhoddodd y Cynghorwyr gwybodaeth bellach i'r Clerc. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda'r arolygwr y Briffordd.

2.12 Banc y Wern, Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi siarad gydag Adran y Briffordd sydd wedi cadarnhau fod Mr Hammett o Gyngor Sir Caerfyrddin mewn cysylltiadau gyda pherchennog y tir. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.13 Cynnal a chadw'r Llwybrau Troed.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gydag Adran Hawliau Tramwy o Gyngor Sir Caerfyrddin sydd wedi cadarnhau bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cymryd dros gynnal a chadw'r llwybrau troed o'r 1af o Ebrill 2009. Hefyd dywedodd y Clerc ei bod hi wedi ysgrifennu at Mr Burridge i derfynu ei gontract o'r 31ain o Fawrth 2009, oherwydd ni fydd y Cyngor Sir yn rhoi 90% ariannu am gynnal a chadw'r llwybrau troed, oherwydd fydd hyn yn cael ei gwneud gan geidwaid Cyngor Sir Caerfyrddin. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.14 Llwybrau Troed.
Fe ddarllenodd y Clerc e-bost a dderbyniwyd wrth Mr Gary Carlsen, o Gyngor Sir Caerfyrddin i'r Cynghorwyr ynglyn â'r brîf gynllun adferiad Safle Gwaith Glo Betws. Dywedodd fod TRJ yn mynd i wneud yn siwr fod llwybr troed 3/14a yn rhydd o unrhyw rwystrau, a fydd yn cyfodi arwyddion perthnasol i ddweud wrth y cyhoedd fod yna dargyfeiriad dros dro tra bod gwaith yn symud ymlaen ar adferiad y safle. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.15 Ailgylchu gwydr.
Darllenodd y Clerc llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r uchod. Yn anffodus nid yw gwydr yn gallu cael eu casglu am ailgylchu. Hefyd yn y gorffennol dim o'n tua 30% o gartrefi roedd yn cael casglu gwydr am ailgylchu. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

2.16 Cyngor Sir Caerfyrddin - Polisi Cynnal a Chadw'r Gaeaf.
Darllenodd y Clerc llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Caerfyrddin i'r Cynghorwyr ynglyn ar uchod. Roedd y Cynghorwr Annette Price am fwy o wybodaeth ynglyn â grutio'r palmentydd. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ymateb i'r llythyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
•Coleg y Drindod – Gwobrau'r Drindod.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Cynllun rheoli Traethlin Bae Abertawe/Caerfyrddin.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Diwrnod y Lluoedd Arfod – 22ain Mehefin 2009.
•Comisiwn ffiniau Llywodraeth Leol I Gymru – Llinell yn y Tywod.
•Really Welsh - Cennin Pedr.
•HOWLTA – rhoddwyd i Gynghorwr Carwyn James.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Nid oedd gan Gyngor Cymuned y Betws unrhyw wrthwynebiad ynglyn â'r cais cynllunio canlynol:-
E/20841 - Diswyddiad o amod 19 o gais cynllunio E/17037, Glyncywarch Washery, Betws, Rhydaman (2-2009/10).
E/20854 – Newidiad i ffordd bengaead, tir ger Parc Bwtrimawr, Betws (3-2009/10).
E/20778 - Newidiad i faterion ar gadw, Gwaith Glo Betws, Rhydaman (24-2008/09).
E/20817 - Estyniad dwbl i ochr y ty, 41 Heol y Betws, Betws (1-2009/10).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
1.Un Llais I Gymru (Aelodaeth) £199.00
2.Cyngor Sir Caerfyrddin (Goleuo'r Llwybrau) £292.58
3.HOWLTA (Aelodaeth) £10.00
4.Cymdeithas Ymwelydd Sir Caerfyrddin (Aelodaeth) £61.80
5.Rhodd - Eisteddfod Genedlaethol Cerddoriaeth Llangollen £100.00
6.Rhodd – Colled Cruse £100.00
7.Rhodd – YFC Sir Gar £100.00
8.Rhodd – Cynllun Fan Bobi £50.00
9.Rhodd – Glo Man £50.00
Cyfanswm £963.38
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i dalu'r bil uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 2 trosedd i'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Mawrth, sy'n cynnwys 1 lladrad, 1 mynd a cherbyd. Hyd yn hyn mae yna 50% datgeliad cyfradd.

Roedd y Cynghorwyr wedi adrodd i PC Kevin Jones ar y materion canlynol:-
1.Roedd yna ddau golau addurnol ger y mynediad mewn i Barc y Betws wrth Heol Pentwyn ond yn anffodus nid maen nhw yna rhagor.
2.Gall arwyddion 'dim ffowlio cwn 'cael ei rhoi ar byst lampau o fewn Betws

Gofynnodd y Gadeiryddes i PC Kevin Jones relái'r neges nid yw'r Cyngor Cymuned yn ceisio cai'r Clwb Rygbi, maen nhw dim ond yn ceisio diogelu'r tir i Gymuned y Betws.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd y Cynghorwr Sir Audrey Jones yn bresennol yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned.

Fe ddiweddarodd y Cynghorwr Anne Sizmur y Cynghorwyr ar Gyfarfodydd y Cyngor Sir a fu hi'n bresennol. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Llwybrau.
Fe adroddodd y Cynghorwr Carwyn James i'r Cynghorwyr yn absenoldeb y Cynghorwr Arnallt James, ar y llwybrau troed o fewn Betws. Mae llwybr troed 3./12 syn arweiniol o Pantybanwen i Fanc y Wern wedi cael eu gau am tua 60 blynedd, ond mae'r gyfraith yn dweud delai'r llwybr ail agor. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Hamdden a Chefn gwlad i weld beth yw'r gost o ail agor llwybr troed 3/12.

8.2 Parciau.
Dywedodd y Cynghorwr Annette Price wrth y Cynghorwyr fod grantiau ar gael i adrannau stadau tai cyngor i wella eu parciau/ llefydd chwarae. Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price os yw'r Cyngor Cymuned am dangos diddordeb. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr Maldwyn John fod yr Is-bwyllgor yn cwblhau'r ffurflen berthnasol ac yn dod a hyn yn nol at brif Gyfarfod y Cyngor Cymuned.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Betws yn ei Blodau.
Gofynnodd y Cynghorwr Loreen Lewis os yw'r Cyngor Cymuned yn mynd i gynnal Cystadleuaeth Betws yn ei Blodau am y flwyddyn hon. Cytunwyd y Cynghorwyr yn unfrydol fod nhw'n cynnal cystadleuaeth Betws yn ei Blodau am y flwyddyn hon. NODWYD y Cynghorwyr y pwynt uchod.

9.2 Llythyr.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis nid yw Mr Jones yn hapus gyda chyd-destun y llythyr a ddanfonwyd gan y Clerc. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn dod a chopi o'r llythyr a ddanfonwyd at Mr Jones i gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9.55 yr hwyr.